# Adolygiad o ddau ymyrriad adfer o dan arweiniad cyfoedion yng Nghymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Ymchwil crynodeb | Ymchwil gymdeithasol | Rhif y ddogfen: 100/2014

**Comisiynwyd Health and Social Research Ltd i adolygu'r gwaith sydd wedi ei wneud hyd yn hyn ac effaith dwy gymuned adfer a ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru: Mudiad Adfer Gwynedd a Môn (AGRO) ar Ynys Môn a Gwynedd a Recovery Cymru yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg.**

**Yn bennaf, sefydlwyd y ddwy gymuned adfer mewn ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaethau. Maent yn cael eu rhedeg gan staff ymroddgar sy'n credu bod yr hyn a gynigir ganddynt yn rhan angenrheidiol ac yn rhan effeithiol o'r llwybr triniaeth i ddod dros ddefnyddio sylweddau.**

Dadansoddi ar gyfer Polisi
YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH
GSR
GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH
Analysis for Policy

Roedd tri cham i'r prosiect hwn:

- astudiaeth fapio a chwmpasu i ddatblygu dealltwriaeth o'r ddwy gymuned adfer;
- adolygu'r gwaith a'r effaith sydd wedi ei wneud hyd yn hyn ; a
- chyfosod data i ddatblygu model rhesymeg generig i helpu'r rheini sy'n dymuno sefydlu cymuned adfer a'i gwerthuso.

Edrychodd yr adolygiad ar farn y prif randdeiliaid, gan gynnwys aelodau, staff a'r rhai sy'n gwirfoddoli mewn cymunedau adfer, cynrychiolwyr gwasanaethau sydd â chysylltiad uniongyrchol neu anuniongyrchol â defnyddio sylweddau, unigolion sy'n defnyddio sylweddau nad ydynt wedi mynd at gymunedau adfer, aelodau o'r teulu ac anwyliaid.

Ar y cyfan, teimlir bod AGRO a Recovery Cymru yn cael effaith gadarnhaol ar unigolion sy'n ymwneud â'r grwpiau a'r gymuned yn ehangach. Mae'r holl aelodau'n dangos brwdfrydedd ac ymrwymiad ac maent yn awyddus i symud ymlaen a gweithredu athroniaeth y model adfer.

Mae canfyddiadau'r astudiaeth wedi arwain at nifer o brif argymhellion i helpu i sefydlu a datblygu cymunedau adfer mewn rhannau eraill o Gymru. Mae hefyd wedi nodi agweddau ar gymunedau adfer y gellir eu datblygu neu'u cyflenwi'n fwy effeithiol.

**Argymhelliad 1**

Rhaid i'r fframwaith sy'n sylfaen i gymunedau adfer gael ei harwain gan gyfoedion. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu y gallai pobl sydd wedi bod trwy'r profiad adfer eu hunain wneud cyfraniad cadarnhaol i gefnogi adferiad pobl eraill. Cyn lansio cymuned adfer newydd, mae'n bwysig bod cyfoedion yn cyfarfod i drafod athroniaeth y grŵp a chytuno arni. Dylai hyn gael ei adlewyrchu wrth benodi Bwrdd Ymddiriedolwyr hefyd.

**Argymhelliad 2**

Mae angen sefydlu grwpiau cymorth a gweithgareddau sy'n hyrwyddo'r teimlad o berchnogaeth a buddsoddiad personol i unigolion ddeall y broses adfer ac ymwneud â hi er mwyn hybu'r syniad o fod yn rhan o grŵp a'r gymuned ehangach. Rhaid i'r unigolion wedyn, ddefnyddio hyn i helpu a chefnogi eraill. Bydd hyn yn sicrhau datblygiad cyfalaf cymdeithasol.

**Argymhelliad 3**

Dylai fod yn bosibl cyfeirio at gymunedau adfer o bob gwasanaeth thriniaeth. Er mwyn i hyn ddigwydd dylai cymunedau adfer fod yn annibynnol o unrhyw ddull o drin. Fodd bynnag, mae'n rhaid iddynt fod wedi'u nodi'n yn glir ar daith/llwybr gwella'r cleient.

**Argymhelliad 4**

Mae comisiynwyr ac arianwyr eraill yn disgwyl bod cymunedau adfer yn darparu tystiolaeth o ba mor effeithiol ydynt. Er hynny, mae natur ac athroniaeth cymunedau adfer (sy'n cynnwys bod yn gynhwysol) yn gwneud bodloni'r maen prawf hwn yn anodd a phroblematig. Gan mai'r prif bwrpas yw datblygu cefnogaeth a chyfalaf cymdeithasol, mae angen i'r ddwy ochr gyfaddawdu a chytuno ar ganlyniadau, er enghraifft, coladu canlyniadau 'meddal' fel tystiolaeth ddichonadwy. Fodd bynnag, mae'n glir bod angen cofnodi nifer defnyddwyr y cymorth a'r gweithgareddau grŵp, hyd yn oed

os nad yw canlyniadau yn cael eu coladu yn y ffordd arferol.

**Argymhelliad 5**

Mae angen hyrwyddo'r syniad o barhad. Dim ond trwy gydlynu gweithgareddau a grwpiau y mae modd gwneud hun, a chael safle neu ganolfan alw heibio lle y gall unigolion gael cyngor a gwybodaeth lle bo hynny'n bosibl.

**Argymhelliad 6**

Mae'n hanfodol hysbysebu a hyrwyddo'r gymuned. Gelid gwneud hyn trwy wefan.  Bydd angen i'r wybodaeth sydd arni gyfeirio at y gweithgareddau a gynigir gan y gymuned ynghyd â sut y gall unigolion ymuno â'r gymuned neu wirfoddoli i fod yn rhan ohonni. Rhaid i'r wybodaeth gael ei chyflwyno mewn ffordd hawdd a dealladwy. Mae'n rhaid gallu gweld y wybodaeth yn hawdd a sicrhau bod unrhyw wybodaeth sydd ar y wefan yn cael ei diweddaru'n gyson. Hefyd, dylai cymunedau adfer gynhyrchu pamffledi a llenyddiaeth arall a chysylltu â gwasanaethau eraill (ee. y rheini sy'n rhoi triniaethau neu gyngor ar dai a chefnogaeth) fel y ffordd fwyaf defnyddiol o gysylltu â chleientiaid a'r gymuned ehangach.

**Argymhelliad 7**

Mae'n rhaid i staff a gwirfoddolwyr gael hyfforddiant digonol ar gyfer y swydd y maent yn mynd iddi, er enghraifft, cynyddu eu hymwybyddiaeth o effeithiau cyffuriau ac alcohol.

**Argymhelliad 8**

Mae angen i gymunedau adfer feithrin cysylltiadau â busnesau lleol er mwyn cael mynediad at gyfleoedd cyllido. Er enghraifft, mae archfarchnadoedd yn rhoi peth o'u harian i gefnogi mentrau lleol ac elusennau.

**Argymhelliad 9**

Mae'r model rhesymeg a ddatblygwyd ar gyfer y prosiect hwn yn un generig ac mae modd iddo gael ei ddefnyddio i sefydlu cymuned adfer a'i gwerthuso. Er hynny, mae angen profi'r model rhesymeg mewn cyd-destunau amrywiol er mwyn ei deilwra a'i fireinio i anghenion cymunedau adfer unigol.

Dr Tina Alwyn
Dr Eiddwen Thomas
(Health & Social Research Ltd)

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:
Ian Jones
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 3411
Ebost:
[ian.jones2@wales.gsi.gov.uk](mailto:ian.jones2@wales.gsi.gov.uk)

Ymchwil Gymdeithasol Llywodraeth Cymru, 27 Tachwedd 2014
ISBN 978 1 4734 1592 8
© Hawlfraint y Goron 2014

Pob cynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored v3.0, heblaw am pryd y nodwyd fel arall
http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/